Papur 4

# Adran Amgylchedd
(Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad)

# Environment Department
(Planning, Public Protection, Transport & Countryside)

**Pennaeth Cynorthwyol yr Adran/Assistant Head of Department – Gareth Jones**

Gofynnwch am/Ask for: Gareth Jones
☎
🖃

Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:

07.01.22

Annwyl Mr Griffiths (AS)

Yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ble bu Swyddogion o'r Cyngor ynghyd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor yn cyflwyno tystiolaeth, holwyd sut mae'r isadeiledd o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ffurfio penderfyniadau cynllunio a gymerwyd gan awdurdodau lleol. Addawyd y byddai'r Awdurdod yn ymateb i'r cwestiwn drwy lythyr.

Yn ystod y broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn fe gyhoeddwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er mai dyddiad y Ddeddf hon yw 2015, daeth i rym ar ôl i'r CDLl ar y Cyd gael ei gyflwyno i'w archwilio (Ebrill 2016). Gan y cyflwynwyd y CDLl ar y Cyd i Ymchwiliad cyn mis Ebrill 2016, nid oedd yn rhaid iddo gyd-fynd yn uniongyrchol â'r nodau llesiant a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, ar gais yr Arolygydd Cynllunio, dangosodd y Cynghorau yn ystod yr Ymchwiliad Cyhoeddus bod y CDLl ar y Cyd yn alinio â'r nodau llesiant sydd wedi'u nodi o fewn y ddeddf. Gwnaed hyn gan gyflwyno tystiolaeth i'r Arolygydd a oedd yn nodi sut oedd y Polisïau a gynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cyd fynd a'r amcanion llesiant. Gan gofio mai datblygiad cynaliadwy yw egwyddor graidd y CDLl ar y Cyd (a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol cysylltiedig), mae cysylltiadau clir rhwng dyheadau'r CDLl a'r Ddeddf/Cynlluniau Llesiant Lleol.

Cadarnheir fod egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r nodau llesiant wedi hysbysu'r gwaith o fonitro'r Cynllun ac yn y dyfodol agos fe fydd yn bwydo fewn i'r broses o gynnal yr adolygiad o'r Cynllun a pharatoi'r Cynllun Diwygiedig.

Fel y gwyddoch, mae'n ofynnol fod penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn cael ei gwneud yn unol â'r arweiniad polisi cynllunio lleol (sef y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn yn yr achos Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd). Gan hynny ac yn sgil y ffaith fod y Cynllun yn cyd-fynd a'r amcanion a gynhwysir yn y Ddeddf ystyrir fod penderfyniadau ar geisiadau cynllunio hefyd yn alinio a'r nodau hynny.

Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaeth (gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio) i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r 7 amcan llesiant a gynhwysir o fewn y Ddeddf. Golygai hynny fod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried yr egwyddorion datblygu cynaliadwy ynghyd a sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Hyderaf fod yr uchod yn ymateb i'r hyn a godwyd yn ystod y cyfarfod.

Yn gywir,

**Gareth Jones**
**Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd**

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd. LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.cymru